

CS/CA2 - Blwyddyn 2

Côt Law Siôn Corn

Y Dasg

Cynnal ymholiad **Prawf Teg**, gyda sampl o ddefnyddiau gwahanol, i weld pa un yw'r mwyaf gwrth-ddŵr i greu côf law i Siôn Corn. Byddwn yn tywallt dŵr dros y samplau a mesur faint o ddŵr aiff drwy'r defnydd. Byddwn yn defnyddio biceri ac offer mesur gwyddonol.

Byddwn yn **rhagfynegi** canlyniad a'i wiro yn erbyn y dystiolaeth yn dilyn defnyddio **ansoddeiriau** i ddisgrifio'r defnyddiau. Yna, cofnodi'r data ar **JiT5** ar ffurf graff bar i ddod â'r elfen **ddigidol TGCh** i'r gwaith. I gloi'r wers byddwn yn tynnu llun Siôn Corn yn ei gôt law newydd gan ddod ag elfen gelfyddydol i'n gwera wyddoniaeth.

Dydd Mawrth
Gwyddoniaeth Gwych
Pa ddefnydd ydych chi'n gwrth-ddŵr i Siôn Corn?

D.D.
Defnyddio y pethau rydych chi'n eu gwyrth-ddŵr i helpu i ddyfalu canlyniad.

M.P.L.L.
• Gallu cymharu ac egluro'r gwahanol gwahanol ddefnyddiau.
• Dod i ddeall bod rhai ddefnyddiau yn fwy gwrth-ddŵr nac eraill.
• Cadw'r bwrdd yn sych.

1. Dalwch y deunydd at y golau. Ydych chi'n gallu gweld drwy'r defnydd o gwbl? Ysgrifennwch 'Ydw' neu 'Nac ydw' yn y blychau:
polyester glas gwlan
cotwm llwyd denim

2. Pa un o'r deunyddiau yw'r un mwyaf tylllog?
(tylllog = gyda'r mwyaf o dyllo)

3. Rhwng **ansoddair** (gair sy'n disgrifio) am bob deunydd (e.e. gwlan: cynnes)
polyester glas gwlan
cotwm llwyd denim

Rhagfynegi

4. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y côf gynhesaf i Siôn Corn?

5. Pa un o'r deunyddiau fuasai'n gwneud y côf law orau i Siôn Corn?

Her ddewisid: Pam ydych chi'n meddwl hynny?

6. Eglurwch beth mae 'gwrth-ddŵr' yn ei olygu:

Amser arbrofi



8. Nodwch faint o ddŵr aeth drwy'r deunyddiau mewn munud:
ml = mililitr

gwlan ml denim ml
polyester glas ml cotwm llwyd ml

Casgliad
Y defnydd i wneud y gôt law orau i Siôn Corn yw:

Cofnodwch eich mesuriadau yn **JiT5** ar Hwb

Côt law Siôn Corn (ac enw'r plentyn)

Graff bar

